# Diweddariad Chwarterol Ystadegau Cymru

# Mehefin 2017

**Dyma'r diweddaraf mewn cyfres o ddiweddariadau chwarterol i ddefnyddwyr ystadegau o Gymru ar ein datblygiadau, ymgynghoriadau a chynlluniau diweddaraf.**

**Ceir rhestr lawn o'n cyhoeddiadau mwyaf diweddar ar ein calendr cyhoeddiadau**

## Cyfiawnder Cymdeithasol a Chydraddoldeb

**Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (WIMD)**
Ym mis Mawrth, fe wnaethom gyhoeddi Adroddiad am Arolwg Amseriad WIMD yn crynhoi'r adborth o'r arolwg o ddefnyddwyr a gynhaliwyd ym mis Hydref 2016. Byddwn yn gweithio tuag at ddarparu diweddariad llawn o'r Mynegai yn 2019, yn seiliedig ar yr adborth i'r arolwg. Yn y cyfamser, byddwn yn parhau gyda'r diweddariadau mynegai blynyddol ar gyfer 2017 a 2018.
Hefyd, cyhoeddwyd diweddariad ar ddata dangosyddion diogelwch cymunedol WIMD ym mis Ebrill.

**Cartrefi Islaw'r Incwm Cyfartalog**
Hefyd ym mis Mawrth, diweddarodd yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) ei chyfres Cartrefi Islaw'r Incwm Cyfartalog i gynnwys data 2015-16, ac fe wnaethom ni ddefnyddio'r rhain i gyhoeddi'r data cychwynnol ar gyfer Cymru a diweddaru ein tablau StatsCymru.

**Adolygiad o'r Dystiolaeth sy'n ymwneud ag Anghydraddoldeb yng Nghymru**
Cyhoeddwyd ail argraffiad o'r Adolygiad o'r Dystiolaeth sy'n Ymwneud ag Anghydraddoldeb yng Nghymru ym mis Ebrill.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â ystadegau.cynhwysiant@cymru.gsi.gov.uk

## Trafnidiaeth

Rydym wedi cyhoeddi datganiadau ar Draffig Ffordd, Troseddwyr Moduro, Hyd a Chyflwr Ffyrdd ac Yfed a Gyrru; ac rydym yn parhau i gynyddu nifer y setiau data ar StatsCymru (troseddwyr moduro, hyd a chyflwr ffyrdd a thraffig ffyrdd).

Rydym wedi datblygu cynnyrch ystadegol newydd yn ddiweddar, cyflymder cerbydau ar draffyrdd Cymru, a gyhoeddwyd ar 17 Mai 2017. Mae'r ystadegau hyn yn seiliedig ar ddata amser siwrneiau o set ddata fasnachol (TrafficMaster). Bydd yr Uned Ddata yn cysylltu â chysylltiadau Pwyllgor Cyswllt Ystadegol Cymru awdurdodau lleol a chydweithwyr cynllunio trafnidiaeth awdurdodau lleol i gwmpasu pa ddata sy'n angenrheidiol a sut yr hoffech ei dderbyn.

Bydd Llywodraeth Cymru'n cynnal ymgynghoriad ar gynnyrch ystadegol trafnidiaeth ar ôl etholiad cyffredinol y DU. Bydd rhagor o wybodaeth yn cael ei dosbarthu pan fydd wedi mynd yn fyw.

## Iechyd

**Crynodeb o Berfformiad a Gweithgarwch y GIG**
Ym mis Ebrill 2017, fe wnaethom gyhoeddi ein crynodeb cyntaf ar y cyd o ystadegau perfformiad a gweithgarwch y GIG, gyda'r nod o ddarparu set fwy cydlynol o ystadegau. Ochr yn ochr â'r datganiad ystadegol, fe wnaethom hefyd gyhoeddi ein hadnodd rhyngweithiol cyntaf gan ddefnyddio PowerBI.

**Mesurau iechyd a lles ar gyfer plant**
Ym mis Mawrth, fe wnaethom gyhoeddi cynnyrch ystadegol newydd sy'n ymwneud â dau o'r dangosyddion cenedlaethol ar gyfer plant. Mae'n darparu data ar lefel genedlaethol ar gyfer lles meddyliol a nifer yr ymddygiadau ffordd o fyw iach am y tro cyntaf.

Mae'r wybodaeth i gyd ar gael yn:
Gwefan Llywodraeth Cymru:Iechyd a gofal cymdeithasol ystadegau
I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch ag:
ystadegau.iechyd@cymru.gsi.gov.uk

## Ystadegau demograffig

Cyhoeddwyd y Datganiad Ystadegol Cyntaf Amcanestyniadau Aelwydydd Awdurdodau Lleol (seiliedig ar 2014 yng Nghymru) gan Lywodraeth Cymru ar 23 Mawrth 2017. Roedd yn dangos, yng Nghymru:

- rhagwelir y bydd nifer yr aelwydydd yn cynyddu tua 140,000 i 1.47 miliwn erbyn 2039 (sef 10.5 y cant);
- rhagwelir y bydd aelwydydd un person yn codi o tua 31 y cant o'r holl aelwydydd i 36 y cant;
- rhagwelir y bydd cynnydd o 17 y cant yn nifer yr aelwydydd un rhiant;
- rhagwelir y bydd maint cyfartalog aelwydydd yn gostwng o 2.29 person i 2.17 person.

Mae amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd ar sail 2014 ar gyfer Parciau Cenedlaethol Cymru i fod i gael eu cyhoeddi yng Nghorffenaf 2017.

Wrth baratoi ar gyfer Cyfrifiad 2021, mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) wedi cynnal prawf yng Nghymru a Lloegr. Dechreuodd ym mis Ebrill 2017, ac wedi gwahodd 100,000 o aelwydydd ar draws saith awdurdod lleol i gymryd rhan. Roedd Powys yn un o'r ardaloedd a oedd wedi'i dewis ar gyfer y prawf.

## Addysg a Sgiliau

Cyhoeddwyd crynodeb o'r datganiad ystadegol Addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith a dysgu cymunedol ddiwedd mis Mawrth 2017, gyda data terfynol ar gyfer y flwyddyn academaidd 2015/16. Bydd y data llawn yn cael ei gyhoeddi drwy StatsCymru ym mis Mai.

Yn y dyfodol, rydym yn adolygu ffurf ac amseriad y cynnyrch o'r gyfres ddata hon. Os oes gennych unrhyw adborth, byddem yn falch o glywed gennych chi: ystadegau.addysgol16@cymru.gsi.gov.uk

Mae'r ystadegau canlynol wedi'u cyhoeddi yn y chwarter diwethaf:
Ystadegau Addysg Allweddol 2017 (Ebrill 2017)

Absenoldeb o ysgolion yn ôl nodweddion disgyblion 2015/16 (Mawrth 2017)

Cyflawniad academaidd yn ôl nodweddion disgyblion 2015/16 (Ionawr 2017)

Mae gwaith yn dal i fynd rhagddo i baratoi ar gyfer ail gyfran y newidiadau i fesurau perfformiad CA4 yn dilyn Adolygiad Cymwysterau 2013. Mae manylion llawn y newidiadau sydd ar y ffordd ar gael yn yr erthygl hon (Saesneg yn unig).

## Yr Economi a'r Farchnad Lafur

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) wedi cyhoeddi Gwerth Ychwanegol Gros (I) ar lefel awdurdod lleol. Nid yw'r data hwn wedi'i ddynodi fel ystadegau gwladol, a byddem yn argymell bod defnyddwyr yn ceisio deall cyfyngiadau'r data hwn (gan fod data wedi'i ddosrannu o lefel NUTS3).

Trefnwyd i'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth gael ei ailbwysoli ddiwedd Mehefin/ddechrau Gorffennaf er mwyn ystyried yr amcangyfrifon diweddaraf ar gyfer y boblogaeth. Bydd StatsCymru yn cael ei ddiweddaru maes o law.

Mae adnodd lledaenu data allforio HMRC wedi'i ddiwygio erbyn hyn, gan ddefnyddio'r fethodoleg newydd yn ôl i Ch1 2013, a dylai gyd-fynd â'r data ar StatsCymru.

Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal ymgynghoriad ar gynnyrch ystadegol yr economi a'r farchnad lafur ar ôl etholiad cyffredinol y DU. Bydd rhagor o wybodaeth yn cael ei dosbarthu pan fydd wedi mynd yn fyw.

## Tueddiadau'r Dyfodol

Ar Mai 5ed cyhoeddodd Llywodareth Cymru adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol, a luniwyd i gefnogi'r sector cyhoeddus yng Nghymru i wneud penderfyniadau gwell ar gyfer y tymor hir.

Mae'n nodi'r tueddiadau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol allweddol a allai effeithio ar Gymru yn y dyfodol, yn ogystal â rhai o'r ffactorau a allai dylanwadu ar gyfeiriad y tueddiadau hynny.

## Arolwg Cenedlaethol

**Canlyniadau a dadansoddi**

- Cyhoeddwyd chwe adroddiad byr, yn seiliedig ar ganlyniadau 2013-2015 ym mis Mawrth. Roeddent yn edrych ar ba ffactorau sy'n ysgogi canlyniadau cadarnhaol ar gyfer dangosyddion Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer Amddifadedd sylweddol, Bodlonrwydd â swydd, Siarad Cymraeg, Ymdeimlad cryf o gymuned, Teimlo'n ddiogel yn yr ardal leol, Teimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau lleol.
- Hefyd, rydym wedi cyhoeddi bwletin yn ddiweddar ar ddiogelwch plant ar-lein, sy'n seiliedig ar ganlyniadau 2014-15.

**Arolwg Cenedlaethol - 2016-17**

- O 2016-17, mae'r Arolwg Cenedlaethol yn cynnwys pynciau a oedd wedi'u cynnwys yn flaenorol yn Arolwg Iechyd Cymru, Arolwg y Celfyddydau yng Nghymru, Arolwg Hamdden Awyr Agored Cymru a'r Arolwg Oedolion Egnïol. Gall y newid hwn arwain at ddiffyg parhad yng nghyfresi amser rhai pynciau. Bydd prosiect a gomisiynwyd i nodi'r rhain, a'r canfyddiadau, yn cael ei gyhoeddi ddiwedd Mehefin 2017, ochr yn ochr â datganiad cyntaf yr Arolwg Cenedlaethol newydd.
- Byddwn yn cyhoeddi canlyniadau cyntaf arolwg 2016-17 ar 28 Mehefin 2017. Yna bydd adroddiadau manwl, sy'n fwy penodol ar gyfer pynciau, yn cael eu cyhoeddi yn ystod ail hanner 2017.

**Arolwg Cenedlaethol - 2017-18**

- Mae holiadur Arolwg Cenedlaethol 2017-18 wedi'i roi ar ein gwefan bellach.

**Arolwg Cenedlaethol - 2018-19**

- Rydym wedi dechrau datblygu pynciau ar gyfer 2018-19. Byddwn yn llunio'r holiadur yn derfynol dros yr haf, a bydd yn cael ei raglennu a'i brofi rhwng mis Hydref 2017 a mis Chwefror 2018.

Mae rhagor o wybodaeth am yr arolwg ar gael ar wefan yr Arolwg Cenedlaethol neu drwy gysylltu ag arolygon@cymru.gsi.gov.uk

## Yr Amgylchedd a Thai

Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu Buildings Research Establishment (BRE) i gynnal Arolwg Cyflwr Tai Cymru yn 2017-18. Y nod yw y bydd y canlyniadau cyntaf ar gael erbyn hydref 2018, gydag amcangyfrifon tlodi tanwydd wedi'i ddiweddaru erbyn diwedd 2018.
Mae gwaith yn dod yn ei flaen yn dda ar gwmpasu a datblygu'r dull gweithredu ar gyfer creu adnodd i ddal a storio data cysylltiedig am gyflwr y stoc dai yng Nghymru (y 'Gronfa Sylfaen Anheddau' yn flaenorol).

Cyhoeddwyd datganiadau blynyddol ar y pynciau 'Rhenti yn y Sector Preifat yng Nghymru, 2016'; ' Amcangyfrifon stoc annedd ar 31 Mawrth 2016' a 'Chymorth i Brynu - Cymru – Data hyd at 31 Mawrth 2017' i gyd ym mis Ebrill 2017. Rydym yn ymgynghori ar y newidiadau yn amlder y data a gyhoeddir am Cymorth i Brynu-Cymru ar hyn o bryd.

Rydym yn parhau i weithio gyda chydweithwyr ym maes polisi, darparwyr data a rhanddeiliaid allweddol fel CLILC i wella ansawdd a chysondeb y data sy'n cael ei gasglu a'i gyhoeddi am ddigartrefedd statudol.

Yn ddiweddar, rydym wedi cyhoeddi setiau data amgylcheddol ychwanegol ar StatsCymru (roedd y data ar gael yn rhywle arall) –sy'n ymwneud â Dangosyddion Cenedlaethol Cenedlaethau'r Dyfodol. E.e. Ynni adnewyddadwy, allyriadau nwyon tŷ gwydr a llifogydd.

Mae'r prosiectau ymchwil tai canlynol ar y gweill ar hyn o bryd:

- Gwerthuso **Gofal Ychwanegol yng Nghymru.** Disgwylir y bydd yr adroddiad terfynol yn cael ei gyhoeddi yn ystod gwanwyn 2017.
- Mae **Deddfwriaeth Digartrefedd** (Deddf Tai (Cymru) 2014) yn cael ei gwerthuso hefyd. Disgwylir y bydd adroddiad cyntaf y gwerthusiad hwn yn cael ei gyhoeddi yn ystod haf 2017.
- Cyhoeddwyd adroddiad cyntaf gwerthusiad Rhentu Doeth Cymru ym mis Tachwedd 2016 ac mae'r adroddiad terfynol i fod ar gael yn ystod hydref 2017.
- Mae **Prosiect Data Gweinyddol ar Gefnogi Pobl** bellach ar y gweill. Mae hwn yn brosiect tair blynedd a disgwylir yr adroddiad cyntaf yn 2017.

## Manylion Cyswllt ar gyfer Ystadegau Llywodraeth Cymru

**Ymholiadau cyffredinol yn ymwneud ag ystadegau**
E-bost: desg.ystadegau@cymru.gsi.gov.uk Rhif ffôn: 0300 025 5050

**Yn benodol i'r pwnc**
http://llyw.cymru/statistics-and-research/about/contacts-statistics/?lang=cy

**Twitter**
https://twitter.com/ystadegaucymru

**Gwasanaeth newyddion a rhybuddion e-bost Llywodraeth Cymru**
http://llyw.cymru/news-alerts/?lang=cy

**Ymholiadau Gweinyddol**
E-bost gweinydduggd@cymru.gsi.gov.uk